

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod y Cyngor, yn Ffestri Capel Soar, Penygroes, Nos Fawrth y 9ed o Ionawr 2018.

1. **Presennol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina MW Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Sharon Wynne Owen, Harry Wyn Owen, Dafydd Jones – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo; Barry Bracegirdle, Dylan Herbert, Erfyl Williams – Penygroes; Judith Humphreys – Cyngorydd Sir / **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones – Nantlle; Nerys Williams, Justin Davies – Penygroes.
 2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb. Ni gymerodd y Cyngorydd Sir unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar geisiadau cynllunio yn ystod y cyfarfod.
 3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Rhagfyr.** Barry yn cynnig cywirdeb a Harry yn eilio.
 4. **Cyngorwyr Sir.** Cafwyd adroddiad gan Judith. Dywedodd fod syrjeri Hywel Williams AS yn y Neuadd Goffa, Penygroes ar yr 8fed o Chwefror am 7.30 yh, i drafod problemau a syniadau â all efallai sbarduno rhywbeth yn y Dyffryn.
 5. **Taflen Ariannol a Chyllid / Praesept.** Cadarnhawyd y daflen ariannol. Erychwyd ar y cyllid am 2018-2019. Penderfynwyd peidio a chynyddu ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'i gadw 'run fath ag eleni.
 6. **Materion yn Codi o'r cyn-gofnodion.** OP yn ein diweddarau am Eglwys Talysarn a chofeb R W Parry. Pwysig nad yw'r Cyngor Cymuned yn diweddu fyny efo cyfrifoldeb am yr rhain. OP wedi darganfod fod dogfennau yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac am wneud ymholiadau pellach. Un opsiwn fyddai i wneud cais loteri a gweld beth ddaw cyn symud ymlaen. Yr Eglwys yn mynd ar werth, a nid yw'n opsiwn gan yr Eglwys i gyflwyno'r adeilad i'r gymuned. Dim pwrpas cael cyfarfod cyhoeddus oni bai bod arian i brynu, cynnal a rhedeg.
 7. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio / Tendir llwybrau a mynwentydd.** 3 tendr wedi dod i law, a byddant yn caeu eu agor nos yfory. Gofynwyd am aelodau o'r Cyngor Cymuned (Penygroes) fynd i edrych ar gae chwarae Cwtin ac awgrymu beth i'w wneud efo'r cae gan ei fod yn wlyb iawn.
 8. **Cynllunio.** Manylion Apel – Mast Telathrebu 21m ayyb – Tir ger Penygroes Telephone Exchange. Dim sylwadau pellach. Cyhoedduswyd ac Ymgynghori cyn cais – Cloddio Chwarel Moel Tryfan, Rhosgadfan. Er gwybodaeth – cais plwyf cyfagos.
 9. **Gohebiaeth.**
- *Cyngor Gwynedd:**
- *Gareth Roberts – Lon Ddwr/Tomen Taldrwst. Darllenwyd ymateb Mr Roberts ynglyn a thrafnidiaeth Lon Ddwr yn sgil y gwaith yn Taldrwst – er gwybodaeth.
 - *Dylan Wyn Jones – Ger y Llan, Llanllyfni. Fe'n hysbyswyd na fyddai rhoi railings yn opsiwn gan Gyngor Gwynedd yn Ger y Llan oherwydd rhesymau diogelwch – gofynwyd i'r Clerc gysylltu i wneud cais am arwyddion fel opsiwn arall i rybuddio gyrrwyr o blant yn chwarae.
 - *Gerallt Jones – Llwybr 62/ Tomen Taldrwst. Er gwybodaeth fel llythyr Gareth Roberts.
 - *Ian Morgan – ymatebion. Y polyn rhydd ger 2 Trem yr Wyddfa angen ei sadio; Angen diolch i Gyngor Gwynedd am ymateb i gwyn am or-dyfiant coed ar Lon Ddwr Llanllyfni –gofyn wrthynt fynd I asesu eto yn y Gwanwyn fan fydd gwyrddni.
- *Arall**
- *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Ymgynghoriad.
 - *Grwp Cysylltu Cae Efa Lwyd. Dafydd Jones yn cynnig ei enw I gynrhychioli'r Cyngor Cymuned. Pawb yn cytuno. Argymell cyfarfod yn amlach, pob rhyw 6 wythnos yn hytrach na pob 3 mis.
 - *EWE Plastics – Quarrymans / Parcio. Ymateb cadarnhaol I'n llythyr. Gyrru copi i Craig ab Iago rhag er gwybodaeth iddo.
 - *Un Llais – Crynodeb cyfarfodydd cyswllt / Garddwest Buckingham / Age Cymru / Adolygiad o'r Sector Cyngorau Cymuned / Bwletin Un Llais. Neb yn rhoi ei enw ymlaen.
 - *Er gwybodaeth – ymateb I Sian Gwenllian gan y Bwrdd Iechyd parthed meddygon teulu Dyffryn Nantlle. Darllenwyd y llythyr.

*Clerks and Councils Direct – cylchgrawn. Ar y bwrdd.

10. **Dorothea** – diweddariad cyfarfod 18.12.17. Cafwyd crynodeb gan Sharon, yn benodol Cwmni Dorothea y neid hysbysu am giat sy'n cael ei gosod, goriad i reoli pwy fydd yn cael mynediad I Dorothea I blymio, trafodaethau gyda CADW.

11. **Goleuadau Nadolig.** Diolch i OP Huws am gyfarfod hefo Dale ym Mhenygroes, a wirfoddolodd ei amser i sortio'r goleuadau Nadolig yn y pengref. Roedd y Cyngor yn ddiolchgar iawn i Dale, a bellach mae'r goleuadau yn edrych yn llawer gwell ac i gyd yn goleuo. Cafwyd trafodaeth ar gael bocsus cyflenwi ar bolion trydan. Dylan Herbert am wneud ymholiadau ar y gost ayyb o gael 'unmetered supply' i Benygroes, ac efallai i Llanllyfni hefyd.

12. **Archwilydd Mewnol.** Derbyiwyd llythyr gan yr Archwilydd Mewnol yn cadarnhau na fydd yn parhau i wneud y gwaith am y flwyddyn ariannol yma. Roedd y Clerc wedi derbyn pris archwilio gan Gyngor Gwynedd. Gofynwyd iddi gysylltu gyda chyfrifwyr lleol eraill i gael pris, a phenderfynu mis nesaf.

13. Materion Pentrefi Talysarn Ysbwriel yn creu golwg (ac yn Nebo DT); **Penygroes** Ysbwriel yn broblem wrth ochr y bin ger Pekish; Gofyn am focus baw ci wrth Dalar Deg; Dwr yn gorlifo o'r sianel tu allan i 5 Bryn Llwyn. **Llanllyfni** Drain yn tyfu drosodd o dir hen gapel Salem – perygl I daro llygad; Railings ar y bont dros afon Llyfni ger y Rheithorwy wedi torri.

14. Llwybrau a Mynwentydd. Darllenwyd llythyr o gwyn a dderbyniwyd gan Mair Jones am St Rhedyw. Y cerrig man wedi cael eu rhoi yn y fynwent ers 15 mlynedd. Y Clerc I lunio llythyr o ymateb, a chadarnhau ei gynnwys efo Cyngorwyr Llanllyfni/Cadeirydd/HWO/DH cyn ei yrru ymlaen. Cyfarfod safle eto yn y fynwent; Cwyn JL Hughes St Rhedyw – cynnig ei chyfarfod yn y fynwent. Opsiwn i'w ystyried – arwydd 'llwybrau anwastad – byddwch yn ofalus'. Gofyn i'r Eglwys drwsio'r giat.

15. Materion yn ymwed a'r heddlu. Dim I'w adrodd.

16. Materion ariannol

Anfonebau – A Johnson – Ffon a Rhyngwyd £25; A Johnson – derbynebau; Scottish Power £31.71 a £30.70; John Roberts - Archwilio

17. **Ceisiadau am arian** - Cwmni Blodeuwedd; Clwb y Caban, Penygroes; Theatr Bara Caws. Trafod mis nesaf.